# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Victor Hughes, R Meirion Jones, R G Parry, OBE, Dylan Rees, J Arwel Roberts (o 2.45pm), Dafydd Rhys Thomas

**WRTH LAW:** Y Prif Weithredwr
Pennaeth Dro Dro Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014 yn gywir.

**3 GWERTHUSIAD ANNIBYNNOL O'R YMYRRAETH YN YNYS MÔN**

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gasgliadau astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr ymyrraeth ym Môn. Comisiynwyd UK Research and Consulting i asesu effeithlonrwydd y mesurau ymyrraeth yn Ynys Môn; effaith a chynnydd, cryfderau a gwendidau a gwersi a ddysgwyd. Mae'r adroddiad yn crynhoi nifer o gasgliadau allweddol a chyfle i ddysgu.

**PENDERFYNWYD nodi'r casgliadau a'r argymhellion allweddol yn yr adroddiad.**

**4 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd ar faterion gweddarlledu ers iddo adrodd i'r Pwyllgor ar 19 Medi 2014. Dywedodd y bu dros 2,500 o ymweliadau â'r safle gweddarlledu ers mis Medi.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fod yr ystadegau, ar y cyfan, yn parhau i fod yn galonogol o ran hyrwyddo atebolrwydd ac agoredrwydd ac i gynyddu cyfranogiad yn nhrefniadau democrataidd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd ar faterion gweddarlledu fel y manylwyd arno yn yr adroddiad a bod diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym Mawrth 2015.**

## 5 GRANT I DDATBLYGU GWEFANNAU AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorau Sir i gynnig grant o hyd at £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned, gan gynnwys y rheini sydd â gwefan ar hyn o bryd, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

Y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â dyrannu'r grant oedd:-

- Mae 36 o Gynghorau wedi hawlio'r grant
- Mae un cyngor wedi dweud ei fod yn bwriadu hawlio'r grant
- Mae 3 Chyngor wedi dweud nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant (mae gan un ohonynt wefan eisoes).

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Ysgrifennu at y 3 Chyngor Tref a Chymuned sydd wedi gwrthod y grant ac ailgynnig y cyllid grant iddynt**
- **Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ym Mawrth 2015 ar y cynnydd hyd yma.**

## 6 RHAGLEN DATBLYGU AELODAU

Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd ar y cyfleon datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig:-

Cyflwynwyd y Cynllun Datblygu ar gyfer 2014/15 i'r Cyngor ac fe'i mabwysiadwyd yn Ebrill 2014. Mae'r cynllun yn ddogfen esblygol ac mae'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu anghenion Aelodau Etholedig a'r galwadau busnes newidiol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd at ddau grŵp ffocws a gynhaliwyd fis Mehefin 2014 i gael sylwadau gan Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â'r gefnogaeth a roddir iddynt. Roedd yr atborth a gafwyd o'r cyfarfodydd hyn yn amlygu'r angen i roi mwy o hyfforddiant ar faterion technoleg, gan gynnwys I-pads.

Cyfeiriodd at yr Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP) ar gyfer Aelodau a sut mae'r amserlen wedi ei haildrefnu i gyd-fynd â'r gwerthusiadau staff blynyddol. Y bwriad yn awr oedd cwblhau'r ADP erbyn Chwefror 2015.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd hefyd fod y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddai'r Grant Gwella gan CLILC yn dod i ben ym Mawrth 2015 ac y byddai hynny'n cael effaith uniongyrchol ar y Siarter ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad a bod y Pwyllgor hwn yn mynegi ei bryderon fod Grant Gwella Llywodraeth Leol Cymru wedi dod i ben a goblygiadau hynny ar gyfer cefnogi a datblygu Aelodau.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00pm

**CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**